# CYNGOR CAERDYDD

COFNODION

CYFARFOD CABINET: 14 RHAGFYR 2023

| | |
|---|---|
| Yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorwyr Peter Bradbury/ Julie Sangani (rhannu swydd)<br>Y Cynghorydd Jen Burke<br>Y Cynghorydd Dan De'Ath<br>Y Cynghorwyr Norma Mackie/ Ash Lister (rhannu swydd)<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Chris Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd John Lancaster<br>Y Cynghorydd Rodney Berman |
| Swyddogion: | Paul Orders, Prif Weithredwr<br>Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddog Adran 151<br>Debbie Marles, Swyddog Monitro Dros Dro<br>Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | Y Cynghorydd Russell Goodway |

**COFNODION Y CYFARFODYDD CABINET A GYNHALIWYD AR 26 HYDREF 2023 A 23 TACHWEDD 2023**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Hydref a 23 Tachwedd 2023.

**ADRODDIAD MONITRO ANSAWDD AER BLYNYDDOL**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad Cynnydd Blynyddol Ansawdd Aer Lleol sy'n defnyddio data o setiau data ansawdd aer a gafwyd yn 2022 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn 2020, cyhoeddodd y Cyngor gynllun i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghylch ansawdd aer ar yr A4161 (Stryd y Castell), rhoddodd y cynllun fanylion mesurau a oedd yn cynnwys gweithredu bysiau trydan, rhaglen ôl-ffitio bysiau, cynllun lliniaru tacsis a gwelliannau i drafnidiaeth canol y ddinas.

Nodwyd bod pedair ardal rheoli ansawdd aer wedi'u pennu yng Nghaerdydd. Dangosodd y canlyniadau a gafwyd o'r tri safle rhwydwaith monitro awtomataidd gydymffurfiad â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol ar gyfer NO2 a PM10. Dangoswyd bod ansawdd aer cyffredinol yng Nghaerdydd yn gwella, ond nodwyd rhai pryderon ynglŷn â'r safle yn Llandaf, a bydd mwy o waith yn cael ei wneud i ddeall y mater hwn.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith nad oes unrhyw safleoedd monitro awtomatig o'r 135 safle monitro wedi cofnodi data uwch na'r nod cyfartalog blynyddol a osodwyd ar gyfer NO2 (40 µg/m).$^{3}$). Mewn perthynas â monitro safleoedd ysgolion fel rhan o'r prosiect strydoedd ysgol, nodwyd bod pob un o'r safleoedd yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r nod cyfartalog blynyddol sef (40 µg/m).$^{3}$).

Dosbarthwyd llythyr gan y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo a derbyn y canlyniadau monitro a gasglwyd yn 2022.

2. cymeradwyo Adroddiad Cynnydd blynyddol 2023 (fel yr atodir yn Atodiad 1) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo erbyn 31 Rhagfyr 2023.

**STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD A DOGFENNAU GWEITHREDOL - DIWEDDARIAD**

Ystyriodd y Cabinet y Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a gynigiwyd. Nodwyd bod Strategaeth Atal Twyll a Llygredd wedi cael ei chyflwyno a'i chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r strategaeth wedi cael ei hadnewyddu a'i diweddaru yn seiliedig ar ganllawiau a gwybodaeth arfer gorau gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA).

Nodwyd bod y strategaeth ddiwygiedig, wedi'i atodi at yr adroddiad yn Atodiad A, yn cynnwys y prif ddiweddariadau canlynol – gwell goruchwyliaeth, adolygiadau sicrwydd, gwell cyfathrebu a hyfforddiant wedi'i adnewyddu gorfodol i staff.

**PENDERFYNWYD**: bod y Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd wedi'i diweddaru, a'r dogfennau gwrth-dwyll gweithredol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn cael eu cymeradwyo.

**ASESIAD PERFFORMIAD CANOL BLWYDDYN 2023/24**

Nodwyd bod llythyr gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad wedi'i gylchredeg. Nododd yr Arweinydd fod y ddau argymhelliad a wnaed wedi cael eu derbyn yn llawn. Yn ogystal, trafododd Panel Perfformiad y Cyngor yr adroddiad hefyd, a gwnaeth 11 o argymhellion y derbyniwyd 10 ohonynt yn llawn ac 1 yn cael ei dderbyn yn rhannol.

Mae'r adroddiad yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth perfformiad i asesu cynnydd yn erbyn yr Amcanion Lles. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at feysydd llwyddiant , er enghraifft Caerdydd yw'r ddinas gyntaf ym Mhrydain i dderbyn statws Dinas sy'n Dda i Blant, cynnydd da tuag at gyflawni'r Strategaeth Gwasanaethau Plant, cefnogaeth barhaus i breswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw, cynnydd tuag at ddarparu 1000 o gartrefi newydd, lefel uwch o integreiddio â'r GIG i gael pobl allan o'r ysbyty yn gyflymach, cefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, cynnydd da tuag at wella mannau cyhoeddus a gwyrdd, cynnydd o ran cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb.

Fodd bynnag, nodwyd meysydd o her strategol fel; cynnydd parhaus yng nghyfradd a chymhlethdod y galw am wasanaethau'r Cyngor - mae hyn yn cynnwys gwasanaethau plant, addysg, y sector gofal cymdeithasol i oedolion a phwysau eithriadol ar y system dai. Meysydd eraill o her yw gallu'r Cyngor i barhau i sicrhau cadernid ariannol, pwysau o ran gweithlu a'r gallu i ymateb i risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

PENDERFYNWYD:

1. bod asesiad canol blwyddyn o berfformiad y Cyngor fel y nodir yn yr adroddiad hwn ac Atodiad A, gan gynnwys cyflawni ymrwymiadau a blaenoriaethau allweddol ar ddiwedd Chwarter 2 2023/24, a'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod Cynllun Corfforaethol 2023-26 yn cael eu cyflawni'n effeithiol, yn cael eu nodi.

2. bod yr ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad (PRAP) (Atodiad C) mewn perthynas â'r Asesiad Canol Blwyddyn drafft yn cael ei ystyried a'i gytuno.

3. bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i'r Asesiad Canol Blwyddyn drafft sy'n ofynnol i adlewyrchu'r ymateb i argymhellion Pwyllgor Craffu APaPh (a gytunwyd o dan argymhelliad 2).

## RHEOLI RISG CORFFORAETHOL – CHWARTER 2 2023/24

Derbyniodd y Cabinet y sefyllfa rheoli risg wedi'i diweddaru yn chwarter 2 ar gyfer 2023/24. Nodwyd y byddai 19 o risgiau yn chwarter 2 yn cael eu cyflwyno i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Nodwyd bod y rhan fwyaf o risgiau'n parhau ar yr un lefel a bod mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Amlygwyd, oherwydd y pwysau ar wasanaethau digartrefedd, ei bod yn debygol y bydd hyn yn dod yn risg gorfforaethol yn chwarter 3.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## CYFRIFO SAIL Y DRETH GYNGOR 2024/25

Ystyriodd y Cabinet Sail y Dreth Cyngor ar gyfer 2024/25 y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei chyfrifo yn unol â'r darpariaethau statudol sy'n llywodraethu'r Dreth Gyngor o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo cyfrifiad sail y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn 2024/25.

2. yn unol â'r adroddiad hwn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail Dreth) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, y swm a gyfrifwyd gan Gyngor Caerdydd fel Sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25 fydd 151,372.

3. yn unol â'r adroddiad hwn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail Dreth) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor fel Sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25 yn yr ardaloedd cymunedol sy'n destun praesept fydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Llys-faen | 3,068 |
| Pentyrch | 3,709 |
| Radur | 4,090 |
| Sain Ffagan | 2,006 |
| Pentref Llaneirwg | 2,512 |
| Tongwynlais | 830 |

4. y trefniadau ar gyfer talu praeseptau yn 2024/25 i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru i fod drwy randaliadau cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis o fis Ebrill 2024 hyd fis Mawrth 2025; ac i'r Cynghorau Cymuned i fod drwy un taliad ar ddiwrnod gwaith cyntaf Ebrill 2024, ac ar yr un sail a hwnnw a ddefnyddiwyd yn 2023/24; ac i'r awdurdodau praeseptu gael eu hysbysu yn unol â hyn.

## ADOLYGIADAU POLISI GWAITH TEG (GWEITHIWR ASIANTIAETH HIRDYMOR)

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn manylu ar ddiwygiadau i Bolisi Gwaith Teg y Cyngor (Gweithiwr Asiantaeth Hirdymor).

Nodwyd, yn dilyn ymgysylltu ag Undebau Llafur fel rhan o broses Partneriaeth Undebau Llafur y Cyngor, y cynhaliwyd trafodaethau o ran lleihau'r cyfnod cychwynnol ar gyfer cael cyflogaeth dros dro o ddwy flynedd i 12 mis. Mae ymrwymiad hefyd wedi'i roi i ystyried ymhellach bolisi'r Cyngor ar y cyfnod i weithwyr dros dro symud at gyflogaeth barhaol ar ôl dod i wybod beth fydd y gofynion o ran arbedion cyllideb y Cyngor dros y flwyddyn ariannol nesaf a'u mapio.

Mae'r Polisi hefyd yn nodi na ddylai rheolwyr gyflogi Gweithwyr Asiantaeth ar aseiniadau y credant fydd am fwy na 12 mis ac eithrio pan fo sianeli recriwtio arferol wedi cael eu disbyddu.

PENDERFYNWYD:

1. (1) cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Gwaith Teg (Gweithiwr Asiantaeth Hirdymor) (Atodiad 1) a bod ei adolygiad parhaus yn cael ei nodi; a,

2. dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, gyda chyngor gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol (neu gynrychiolydd awdurdodedig) i wneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'r Polisi Gwaith Teg (Gweithiwr Asiantaeth Hirdymor), yr ystyrir eu bod yn briodol i adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i fod yn gyflogwr 'Gwaith Teg'.

## PENNU RHENT TAI CYNGOR A THÂL GWASANAETH 2024/25

*Datganodd y Cynghorydd Ash Lister fudd personol a rhagfarnus yn yr eitem hon gan fod aelod o'r teulu yn denant i'r Cyngor. Gadawodd y Cynghorydd Lister y cyfarfod ac ni chymerodd ran yn y broses o wneud penderfyniadau.*

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y dull o osod rhenti a thaliadau gwasanaethau ar anheddau sy'n eiddo i'r Cyngor yn y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25

Nodwyd mai’r brif ffynhonnell incwm i'r Cyfrif Refeniw Tai yw tenantiaid ar ffurf rhenti a thaliadau gwasanaeth. Diben cynyddu'r rhent yw sicrhau bod gan y Cyfrif Refeniw Tai ddigon o incwm i ddarparu gwasanaethau tai o safon i denantiaid presennol a thenantiaid y dyfodol. Mae incwm rhent yn galluogi’r gwasanaeth i fuddsoddi mewn cynnal a chadw a gwella cartrefi a chymdogaethau presennol; darparu gwasanaethau cymorth da i denantiaid; cyfrannu at ariannu ein Hybiau Cymunedol a hefyd adeiladu cartrefi newydd.

Yn dilyn adolygiad llawn, cafwyd cynnig y dylid cynyddu rhenti'r cyngor gan y swm llawn a ganiateir, sef 6.7%. Fodd bynnag, mae wedi’i ddangos hefyd bod rhenti'n parhau i fod yn fforddiadwy ar y lefel uwch hon, gyda'r lefelau rhent newydd yn sgorio'n dda yn erbyn model rhenti byw Sefydliad Joseph Roundtree (JRF), ac i'r mwyafrif o denantiaid y Cyngor sy'n derbyn budd-daliadau, bydd y cynnydd mewn rhent yn cael ei gwmpasu gan gynnydd yn y budd-daliadau y maent yn eu derbyn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo’r y dull ar gyfer gosod taliadau rhent a gwasanaethau ar gyfer anheddau sy'n eiddo i'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 (fel y nodir yn yr adroddiad hwn).

## ARGYFWNG TAI YNG NGHAERDYDD

***Ni fydd Atodiadau 1, 2, 3, a 7 yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym Mharagraffau 14, 16 a 21 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Derbyniodd y Cabinet adroddiad ynghylch yr Argyfwng Tai yng Nghaerdydd, gan gynnwys y pwysau digynsail y mae hyn yn ei roi ar wasanaethau digartrefedd, yn ogystal â'r camau sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Amlygwyd bod y niferoedd uchaf erioed o unigolion a theuluoedd yn ceisio cymorth gan y gwasanaethau digartrefedd, gan roi pwysau digynsail ar lety dros dro.

Cynigiodd yr adroddiad y canlynol ar gyfer y dyfodol:

1. Gwneir penderfyniad 'digartref' bwriadol lle ceir tystiolaeth glir bod ymgeisydd wedi gwneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol.
2. Cynigir llety rhent preifat y tu allan i ardal Caerdydd, yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos, lle bo hynny'n briodol.
3. Gwneir cynigion parhaol o dai cymdeithasol yn unrhyw ran o'r ddinas, gan gael gwared ar ardaloedd o ddewis ar gyfer ymgeiswyr digartref ar y Rhestr Aros Tai Cyffredin.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig dull strategol o fynd i'r afael â'r pwysau ar argyfwng tai Caerdydd, gan gynnwys:

- Yn y tymor byr, prynu eiddo ar raddfa fawr.
- Yn y Tymor Canolig: parhau i ddefnyddio safleoedd cartrefi modiwlaidd drwy Raglen Cartrefi Caerdydd.
- Yn y tymor hir, parhau'r rhaglenni adeiladau newydd parhaol (Cartrefi Caerdydd, y rhaglen adeiladu ychwanegol, a'r Ail Bartneriaeth) i ddarparu cartrefi cyngor parhaol newydd ar raddfa.

Nodwyd y bydd y newidiadau polisi arfaethedig yn destun proses ymgynghori.

Dosbarthwyd llythyr cyhoeddus a chyfrinachol gan y Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

*PENDERFYNWYD:*

1. cynnal proses ymgynghori ar y newidiadau polisi arfaethedig a amlinellir ym mharagraffau 34, 39 a 40 o'r adroddiad, gan gynnwys ystyried bwriadoldeb wrth wneud penderfyniadau digartrefedd, dileu ardaloedd o ddewis ar gyfer ymgeiswyr digartref ar y Rhestr Aros Tai Cyffredin a chynnig llety rhent preifat y tu allan i'r ddinas, yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos.

2. dirprwyo cymeradwyaeth derfynol ar weithredu'r newidiadau o dan argymhelliad (i) uchod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet, Tai a Chymunedau, yn dilyn asesiad effaith llawn ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

3. mewn egwyddor caffael yr eiddo a nodwyd yn Atodiad 1 a chymeradwyo dyfarnu contract newydd yn uniongyrchol ar gyfer darparu llety dros dro modiwlaidd ar draws y safleoedd a nodwyd yn Atodiad 2.

4. cymeradwyaeth derfynol caffael eiddo a dyfarnu'r contract yn uniongyrchol i Wates a nodir yn argymhelliad (iii) uchod a dirprwyo unrhyw faterion ategol sy'n ymwneud ag ef i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau mewn ymgynghoriad â Swyddog A.151, Gwasanaethau Cyfreithiol ac aelodau'r Cabinet dros Dai a Cymunedau a Chyllid, Moderneiddio a Pherfformiad yn amodol ar:

- Cymeradwyo cyllid grant priodol gan Lywodraeth Cymru,
- Cytundeb Pennaeth Telerau ar gyfer y trefniadau prydles arfaethedig gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ar gyfer y safleoedd a nodwyd yn Atodiad 2 ac mewn perthynas â'r pryniant eiddo a nodwyd yn Atodiad 1.
- Cadarnhad o asesiad hyfywedd ariannol addas ar gyfer pob un o'r safleoedd.
- Cadarnhad nad yw'r penderfyniad yn arwain at ymrwymiadau y tu allan i gyfyngiadau fframwaith y gyllideb.

**DATBLYGU CANOLFAN LLES BYW'N ANNIBYNNOL**

Derbyniodd y Cabinet adroddiad ynghylch cynigion ar gyfer datblygu Canolfan Lles Byw'n Annibynnol i ddatblygu gwasanaethau atal ymhellach a chefnogi byw'n annibynnol, fel y nodir yn Strategaeth Heneiddio'n Dda y Cyngor.

Mae'r Ganolfan Lles Byw'n Annibynnol yn cynnwys dwy elfen integredig sy'n cyfrannu'r naill at y llall:

- Mae'r Cyd-Wasanaeth Offer yn storio ac yn cynnal gweithrediadau logistaidd gan gynnwys uned diheintio newydd.
- Hyb Amlddisgyblaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys Tŷ Clyfar newydd i arddangos amrywiaeth o dechnoleg, offer ac addasiadau i'r cartref ac i hwyluso hyfforddiant.

Nodwyd y bydd y Ganolfan Lles Byw'n Annibynnol yn mynd i'r afael ag angen hanfodol y Cyd-Wasanaeth Offer, ar gyfer adeilad newydd i gefnogi darpariaeth statudol offer meddygol a chynhyrchion ymataliaeth.

Amlygwyd y byddai'r prosiect yn symud yn ei flaen i'r cam dylunio manwl pe bai'r cynigion ar gyfer datblygu'r Ganolfan Lles Byw'n Annibynnol yn cael eu cymeradwyo. Bydd cymeradwyaeth derfynol ar gyfer y datblygiad yn destun Achos Busnes Llawn ac Adroddiad Cabinet pellach.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo, mewn egwyddor, y cynigion ar gyfer datblygu Canolfan Lles Byw'n Annibynnol i ddarparu eiddo cynaliadwy ar gyfer y Cyd-wasanaeth Offer ynghyd â Thŷ Clyfar newydd a Hyb Lles amlddisgyblaethol, yn unol â'r nodau a nodir yn y Strategaeth Heneiddio'n Dda.

2. Cytuno ar gam dylunio manwl ar gyfer y Ganolfan Byw'n Annibynnol a Lles, a nodi y bydd yr achos busnes llawn dros y datblygiad yn destun adroddiad pellach gan y Cabinet.

**ADOLYGIAD O'R FARCHNAD CARTREFI GOFAL I BOBL HŶN A'R DULL O BENNU FFIOEDD AR GYFER GWASANAETHAU GOFAL A CHYMORTH AR GYFER 2024/5**

***Nid yw Atodiadau A, B a D yr adroddiad hwn i'w cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn unol â pharagraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am gytundeb ar gyfer pennu ffioedd gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer 2024/25, yn ogystal â'r dull ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi trefniadau i gryfhau sicrwydd ansawdd yn y sector.

Nodwyd bod y dull o bennu ffioedd, yn ogystal â'r dull ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal i bobl hŷn yn y dyfodol, wedi cael eu llywio gan adolygiad diweddar o gartrefi gofal i bobl hŷn, y gellir gweld manylion llawn amdano yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Nodwyd bod ymgynghoriad wedi digwydd gydag amrywiaeth o ddarparwyr gofal er mwyn deall eu costau nawr ac yn y dyfodol. Cynhelir ymgynghoriad pellach ar y codiadau ffioedd arfaethedig a fydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â chynnydd mewn ffioedd ar gyfer 2024/25.

Dosbarthwyd llythyr gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol

PENDERFYNWYD:

1) bod canfyddiadau'r adolygiad o leoliadau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn cael eu nodi.

2) bod y gwaith sy'n cael ei wneud i wella sicrwydd ansawdd cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn cael ei nodi.

3) bod y dull o bennu ffioedd ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn ar gyfer 2024-25 a gwasanaethau eraill a gomisiynir gan y Gwasanaethau Oedolion yn cael ei gytuno, yn amodol ar ymgynghori pellach â darparwyr gofal a chadarnhad o'r dyraniad ariannol drwy'r broses o osod y gyllideb. Bod yr awdurdod gwneud penderfyniadau cysylltiedig mewn perthynas â'r cynnydd blynyddol ar gyfer gofal a chymorth a chyfraddau cost safonol newydd gofal ar gyfer lleoliadau mewn cartref gofal i bobl hŷn ar gyfer 2024/25 yn cael ei

ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Oedolion) Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.

4) bod y dull ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol, gan gynnwys cyfuniad o drefniadau darparwyr a fframwaith cymeradwy yn cael ei gytuno a bod yr awdurdod penderfynu ynghylch unrhyw gaffael gwasanaethau cysylltiedig yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Oedolion) y Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr y Gyfraith a Llywodraethu.